Adran Gwaith a Phensiynau

# Holiadur Gallu i Weithio

## Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi

Os hoffech gael Braille, Iaith Arwyddion Prydain, ebost, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain, neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 328 1744** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym beth mae ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**

## Y ffurflen hon

- llenwch yr holiadur hwn a'i anfon yn ôl i Wasanaeth Ymgynghorol Asesiadau Iechyd.
- mae rhaid i chi ei anfon yn ôl erbyn y dyddiad y gofynnwyd i chi yn y llythyr amgaeedig.
- ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Os hoffech, gallwch lawrlwytho copi o'r holiadur i'ch cyfrifiadur a'i lenwi. Ewch i **www.gov.uk** a chwilio am ESA50W.
- anfonwch gopïau o'ch gwybodaeth feddygol neu wybodaeth arall yn ôl â'ch holiadur. Nid ydym yn cysylltu â'ch gweithwyr meddygol proffesiynol bob tro felly mae'r wybodaeth hon yn bwysig, a dylech roi gwybod i ni am sut mae eich anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio arnoch a sut rydych yn gallu gwneud pethau o ddydd i ddydd. Mae rhestr o'r wybodaeth sy'n ddefnyddiol i ni ar **dudalen 23**.
- bydd Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiadau Iechyd yn defnyddio'r gwybodaeth rydych yn ei darparu i benderfynu a oes rhaid i chi ddod i asesiad. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi'r cymorth gorau y gallwn ac i dalu'r swm cywir o fudd-daliadau i chi.
- dylech anfon dim ond copïau o wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd gennych eisoes. Peidiwch â gofyn na thalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom. Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol ar bob darn o bapur rydych yn ei anfon atom.
- sicrhewch eich bod yn llenwi adran 'Chi' ar **dudalen 2** yn llawn.

Os oes angen help arnoch i lenwi'r holiadur, gallwch:
- gofyn i ffrind, perthynas, gofalwr, neu weithiwr cymorth i'ch helpu
- ffonio'r Ganolfan Byd Gwaith ar **0800 328 1744** i drefnu i ymgynghorydd hyfforddiedig i siarad â chi am y cwestiynau dros y ffôn. Mewn rhai achosion, gellir ysgrifennu eich atebion ar eich rhan. Gallwch ofyn am i'ch holiadur gael ei anfon atoch trwy'r post i'w wirio. Peidiwch â mynd i'ch Canolfan Byd Gwaith leol.

**Efallai bydd eich taliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn dod i ben os na lenwch yr holiadur hwn a'i anfon i Wasanaeth Ymgynghorol Asesiadau Iechyd erbyn y dyddiad rydym wedi gofyn i chi wneud.**

## Chi

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym amdanynt hwy, yn hytrach na chi.

**01** **Enw cyntaf**

**02** **Enwau canol, os oes gennych rai**

**03** **Enw olaf**

**04** **Rhif Yswiriant Gwladol**

**05** **Dyddiad geni**

DD/MM/BBBB

**06** **Cyfeiriad**

Cod post

**07** **Rhif ffôn symudol, os oes gennych un**

**08** **Unrhyw rifau ffonau cysylltu eraill**

**09** **Eich cyfeiriad ebost, os oes gennych un**

## Mwy o wybodaeth am y cais

**10** **A ydych yn feichiog?**

- ☐ Na **Ewch i gwestiwn 11**
- ☐ Ydw

Pryd mae disgwyl i'ch babi gyrraedd?

DD/MM/BBBB

**11** **A ydych wedi bod yn yr ysbyty am fwy na 28 diwrnod yn ystod y 12 mis diwethaf?**

- ☐ Na **Ewch i gwestiwn 12**
- ☐ Ydw

Rhowch y dyddiadau roeddech yn yr ysbyty.

DD/MM/BBBB

O

I

Beth oedd enw'r ysbyty?

**12** **A ydych wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog EF?**

- [ ] Na **Ewch i gwestiwn 13**
- [ ] Ydw

Ym mha wasanaeth roeddech?

- [ ] Y Fyddin
- [ ] Y Llynges Frenhinol/Morfilwyr
- [ ] Y Llu Awyr Brenhinol

Ar ba ddyddiad gwnaethoch adael?
DD/MM/BBBB

**13** **A ydych wedi eich rhyddhau o'r carchar yn ystod y 6 mis nesaf.**

Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddod o hyd i'ch cofnodion meddygol yn gynt. Ni fyddwn yn rhannu'r wybodaeth hon nac yn ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.

- [ ] Na
- [ ] Ydw

Ar ba ddyddiad gwnaethoch adael?
DD/MM/BBBB

## Ar gyfer pobl sy'n llenwi'r holiadur hwn ar ran rhywun arall

Os ydych yn llenwi'r holiadur hwn ar ran rhywun arall, dywedwch wrthym am eich manylion eich hun.

**14** **Eich enw**

**15** **Eich cyfeiriad**

Cod post

**16** **Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi arno**

**17** **Esboniwch pam rydych yn llenwi'r holiadur ar ran rhywun arall, pa sefydliad, os oes un, rydych yn ei gynrychioli, neu eich gysylltiad â'r person y mae'r holiadur amdano.**

## Eich Meddyg Teulu (GP) neu feddygfa

Dywedwch wrthym am eich meddyg teulu. Os nad ydych yn gwybod enw'ch meddyg teulu, rhowch enw'ch meddygfa. Mae'n bwysig eich bod yn anfon eich holl wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall atom â'r holiadur hwn. Dylech anfon dim ond copïau o wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd gennych eisoes. Peidiwch â gofyn na thalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom. Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol ar bob darn o bapur rydych yn ei anfon atom.

**18** **Beth yw enw'ch Meddyg Teulu?**

Os nad ydych yn gwybod enw'r Meddyg Teulu, rhowch enw'r feddygfa neu ganolfan iechyd.

**19** **Ei rif ffôn**

**20** **Ei gyfeiriad**

Postcode

## Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gofalwyr, ffrindiau, neu berthnasau eraill sy'n gywbod fwyaf am eich anabledd neu gyflwr iechyd

Rhowch fanylion i ni am y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gofalwyr, ffrindiau, neu berthnasau sy'n gwybod fwyaf am eich anabledd neu gyflwr iechyd. Dylent wybod pa effaith mae eich anabledd neu gyflwr iechyd yn ei gael ar eich gallu i wneud pethau bob dydd. Nid ydym yn cysylltu â nhw bob tro, felly mae'n bwysig eich bod yn anfon eich holl wybodaeth feddygol a gwybodaeth arall yn ôl â'r holiadur hwn. Dylech anfon dim ond copïau o wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd gennych eisoes. Peidiwch â gofyn na thalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom. Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol ar bob darn o bapur rydych yn ei anfon atom.

Er enghraifft:
- meddyg ymgynghorol neu arbenigol
- seiciatrydd neu nyrs arbenigol, fel nyrs seiciatrig gymunedol
- ffisiotherapydd
- therapydd galwedigaethol
- gweithiwr cymdeithasol
- gweithiwr cymorth, cynorthwyydd personol, neu ofalwr.

**21** **Ei enw**

**22** **Teitl ei swydd**

**23** **Ei gyfeiriad**

Cod post

**24** **Ei rif ffôn**

Os oes gennych fwy nag un, defnyddiwch adran '**Gwybodaeth arall**' neu ddarn arall o bapur â'ch rhif Yswiriant Gwladol wedi ei ysgrifennu arno.

## Rhannu gwybodaeth am eich cyflwr iechyd

Efallai bydd angen mwy o wybodaeth ar Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol cymeradwy am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio ar eich gallu i weithio.

Efallai byddant yn gofyn am wybodaeth berthnasol gan eich meddyg, neu unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol rydych yn dweud wrthynt amdano.

### A ydych yn cydsynio i'ch meddyg neu weithiwr proffesiynol perthnasol eraill roi mwy o wybodaeth i DWP am eich cyflwr iechyd?

☐ **Ydw** – gellir rhannu gwybodaeth am fy iechyd â DWP neu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio i DWP.

☐ **Na** – ni ellir rhannu gwybodaeth am fy iechyd â DWP neu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio i DWP.

### Sut mae DWP yn defnyddio'r wybodaeth hon

Mae DWP yn defnydio'r wybodaeth hon i:
- prosesu'ch cais
- gwneud penderfyniad ar eich hawliad, neu unrhyw ailystyriaeth orfodol neu apêl a wnewch.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i DWP gael, cadw, a defnyddio'r wybodaeth hon.

Mae angen ar eich meddyg (neu weithwyr proffesiynol eraill rydych yn dweud wrth DWP amdanynt) i chi gydsynio i roi'r wybodaeth hon i DWP. Os byddwch yn cydsynio, mae hyn yn rhoi gwybod iddynt eu bod yn cael rhannu'r wybodaeth hon â DWP yn gyfreithiol.

Gall DWP ofyn yn gyfreithlon i'ch meddyg, ymgynghorydd ysbyty, neu weithwyr proffesiynol perthnasol a, wybodaeth am eich cyflwr iechyd a sut mae'n effeithio arnoch. Mae hyn oherwydd rydym yn gofyn am y wybodaeth i'n helpu i gyflawni ein swyddogaethau nawdd cymdeithasol swyddogol.

Nid oes rhaid i chi gydsynio. Os na wnewch, bydd DWP yn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth sydd gennym eisoes, yn ogystal ag unrhyw beth rydych yn rhoi i ni eich hun.

### Os byddwch yn newid eich meddwl

Gallwch newid eich meddwl. Gallwch wneud hyn drwy ffonio **0800 328 1744** a dweud eich bod am gydsynio neu dynnu cydsyniad yn ôl.

Os tynnwch eich cydsyniad yn ôl, ni all DWP gael eich gwybodaeth gan eich meddyg neu eraill a enwir ar eich ffurflen.

Rwyf wedi darllen a deall y testun uchod.

**Llofnod**

**Dyddiad**

DD/MM/BBBB

## Triniaeth canser

**PWYSIG:** os yw eich triniaeth canser yn effeithio arnoch ac nad oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd eraill, nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar yr holiadur hwn.

**25** **A ydych wedi cael diagnosis o ganser?**

☐ Na **Ewch i 'Eich anableddau neu gyflyrau iechyd' ar dudalen 7**

☐ Ydw **Ewch i gwestiwn 26**

**26** **A ydych yn cael, yn aros am, neu'n wella o unrhyw un o'r triniaethau canlynol?**

- **cemotherapi**
- **triniaeth fiolegol/imiwnotherapi**
- **triniaeth hormonaidd**
- **therapi targededig, neu**
- **radiotherapi**

☐ Na **Ewch i 'Eich anableddau neu gyflyrau iechyd' ar dudalen 7**

☐ Ydw **Ewch i gwestiwn 27**

**27** **A oes gennych unrhyw broblemau iechyd eraill, yn ogystal â chanser a'r problemau sy'n deillio o'ch triniaeth canser?**

☐ Na Sicrhewch fod **tudalen 24** wedi ei llenwi a'i llofnodi gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol. Gall hyn gynnwys meddyg teulu (a all godi ffi), meddyg ysbyty neu nyrs glinigol sy'n ymwybodol o'ch triniaeth canser. Pan fydd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol wedi llofnodi **tudalen 24** a'ch bod wedi llofnodi **tudalen 22** gallwch wedyn ddychwelyd yr holiadur hwn gan ddefnyddio'r amlen amgaeedig.

☐ Oes Llenwch weddill y ffurflen hon

## Eich anableddau neu gyflyrau iechyd

Byddwn yn gofyn cwestiynau penodol i chi am sut mae eich anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich gallu i wneud pethau bob dydd yng ngweddill yr holiadur hwn.

**28** **Beth yw eich anableddau neu gyflyrau iechyd?**

Dywedwch wrthym sut maent yn effeithio arnoch, pryd gwnaethant ddechrau, ac a ydych yn meddwl bod unrhyw un o'ch cyflyrau yn gysylltiedig â chyffuriau neu alcohol.

Dywedwch wrthym hefyd am unrhyw gymhorthion a ddefnyddiwch, fel cadair olwyn neu gymorth clyw ac unrhyw beth arall y credwch y dylem ei wybod am eich anableddau neu gyflyrau iechyd.

Os bydd angen mwy o le arnoch, defnyddiwch adran '**Gwybodaeth arall**' neu ddarn arall o bapur â'ch Rhif Yswiriant Gwladol wedi ei ysgrifennu arno.

**29** **Pa dabledi, hylifau, anadlyddion, neu feddyginiaeth arall rydych yn eu cymryd ac a oes unrhyw sgileffeithiau?**

Gallwch ddod o hyd i restr o'ch meddyginiaethau ar eich presgripsiwn diweddaraf. Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch adran '**Gwybodaeth arall**' neu ddarn arall o bapur â'ch rhif Yswiriant Gwladol wedi ei ysgrifennu arno.

Nid oes angen arnoch lenwi hwn os ydych yn anfon copi o'ch presgripsiwn.

## Ysbyty, clinig, neu driniaeth arbennig fel dialysis neu driniaeth adsefydlu

Dywedwch wrthym am unrhyw:
- triniaeth ysbyty neu glinig rydych yn ei chael
- triniaeth ysbyty neu glinig rydych yn disgwyl ei chael yn y dyfodol agos
- triniaeth arbennig rydych yn ei chael fel dialysis neu driniaeth adsefydlu.

Dywedwch wrthym hefyd am unrhyw driniaeth arbennig a gewch nad ydych efallai yn mynd i ysbyty neu glinig ar ei chyfer.

**30** **Pa triniaethau ysbyty, clinig, neu arbennig rydych yn eu cael?**

Er enghraifft, y driniaeth rydych yn ei chael, ble rydych yn ei chael, a pha mor aml.

Os ydych yn disgwyl cael triniaeth yn y dyfodol agos, dywedwch wrthym beth fydd y driniaeth a'r dyddiad y mae i fod i ddechrau.

Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch adran '**Gwybodaeth arall**' neu ddarn arall o bapur â'ch rhif Yswiriant Gwladol wedi ei ysgrifennu arno.

**31** **A ydych yn cael neu'n aros am unrhyw driniaeth y mae angen i chi aros rywle dros nos neu'n hwy ar ei chyfer?**

Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch adran '**Gwybodaeth arall**' neu ddarn arall o bapur â'ch rhif Yswiriant Gwladol wedi ei ysgrifennu arno.

☐ Na **Ewch i adran Problemau iechyd corfforol**

☐ Ydw Dywedwch wrthym am hyn isod

**32** **A ydych mewn, neu ar fin dechrau cynllun adsefydlu preswyl?**

Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch adran '**Gwybodaeth arall**' neu ddarn arall o bapur â'ch rhif Yswiriant Gwladol wedi ei ysgrifennu arno.

☐ Na **Ewch i adran Problemau iechyd corfforol**

☐ Ydw Dywedwch wrthym beth yw enw'r sefydliad sy'n rhedeg eich cynllun, pryd gwnaethoch ddechrau'ch triniaeth, neu pryd mae disgwyl iddi ddechrau, a phryd mae disgwyl iddi ddod i ben.

## Sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch

### Problemau iechyd corfforol

**Atebwch yn gadarnhaol i'r cwestiynau canlynol dim ond os gallwch wneud y gweithgaredd yn ddiogel, i safon dderbyniol, mor aml ag sydd angen ac mewn amser rhesymol.**

**Symud o gwmpas a defnyddio grisiau**

Mae ystyr symud yn cynnwys defnyddio cymhorthion byddwch yn eu defnyddio fel arfer fel cadair olwyn â llaw, baglau, neu ffon gerdded on heb gymorth gan berson arall.

**33** **A allwch symud o gwmpas a defnyddio grisiau heb drafferth?**

☐ Na

☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 38**

**34** **Pa mor bell gallwch symud yn ddiogel dro ar ôl tro ar dir gwastad heb fod angen stopio?**

Er enghraifft, oherwydd blinder, poen, diffyg anadl, neu ddiffyg cydbwysedd.

☐ 50 metr - mae hyn tua hyd 5 bws deulawr, neu ddwywaith hyd pwll nofio cyhoeddus cyffredin

☐ 100 metr - mae hyn tua hyd cae pêl-droed

☐ 200 metr neu fwy

☐ Mae'n amrywio

**35** **Dywedwch wrthym pa mor bell gallwch symud a pham gallech orfod stopio.**

Os ydych fel arfer yn defnyddio ffon gerdded, baglau, cadair olwyn, neu unrhyw beth arall i'ch helpu, dywedwch wrthym sut mae'n effeithio ar y ffordd rydych yn symud o gwmpas.

**36** **A allwch fynd i fyny neu i lawr 2 ris heb gymorth gan berson arall, os oes rheilen i ddal gafael arni?**

- ☐ Na
- ☐ Mae'n amrywio
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 38**

**37** **Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio dywedwch fwy wrthym am ddefnyddio grisiau.**

## Sefyll ac eistedd

**38** **A allwch sefyll ac eistedd heb drafferth?**

☐ Na

☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 42**

**39** **A allwch symud o un sedd i sedd arall wrth ei hymyl heb gymorth gan rywun arall?**

☐ Na

☐ Gallaf

☐ Mae'n amrywio

**40** **Tra'ch bod yn sefyll neu'n eistedd (neu gyfuniad o'r ddau) pa mor hir gallwch aros mewn un lle heb gymorth person arall?**

☐ Llai na 30 munud

☐ 30 munud i 1 awr

☐ Mwy nag 1 awr

☐ Mae'n amrywio

**41** **Os ydych yn cael problemau â sefyll ac eistedd, dywedwch fwy wrthym amdano. Dywedwch wrthym pam gallai hyn fod yn anodd i chi a sut mae hyn yn effeithio ar eich diwrnod arferol.**

Dylech gynnyws pa mor hir gallwch eistedd, pa mor hir gallwch sefyll a beth sy'n gallu ei gwneud yn anodd i chi eistedd a sefyll.

## Estyn

**42** **A allwch estyn i fyny â'r naill fraich neu'r llall heb drafferth?**

☐ Na

☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 46**

**43** **A allwch godi o leiaf un o'ch breichiau yn ddigon uchel i roi rhywbeth ym mhoced uchaf cot neu siaced tra'ch bod yn ei wisgo?**

☐ Na

☐ Gallaf

☐ Mae'n amrywio

**44** **A allwch godi un o'ch breichiau uwch eich pen?**

☐ Na

☐ Gallaf

☐ Mae'n amrywio

**45** **Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch wrthym pam efallai na fyddwch yn gallu ymestyn ac a yw hyn yn effeithio ar y ddwy fraich.**

### Codi a symud pethau gan ddefnyddio rhan uchaf eich corff a'r naill fraich neu'r llall

**46** **A allwch godi pethau o uchder eich canol a'u symud heb drafferth?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 51**

**47** **A allwch godi a symud carton hanner litr (1 peint) yn llawn hylif o uchder eich canol gan ddefnyddio rhan uchaf eich corff a'r naill fraich neu'r llall?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**48** **A allwch godi a symud carton litr (2 beint) yn llawn hylif o uchder eich canol gan ddefnyddio rhan uchaf eich corff a'r naill fraich neu'r llall?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**49** **A allwch godi a symud gwrthrych mawr, ysgafn fel blwch cardbord gwag?**

Er enghraifft, o un arwyneb i'r llall ar uchder y waist.

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**50** **Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch fwy wrthym am godi pethau a'u symud a pham efallai na fyddwch yn gallu codi pethau.**

### Deheurwydd llaw (defnyddio'ch dwylo)

**51** **A allwch ddefnyddio'ch dwylo heb unrhyw drafferth?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 54**

**52** **A allwch ddefnyddio'r naill law neu'r llall i wasgu botwm (fel bysellbad ffôn), troi tudalennau llyfr, codi darn £1, defnyddio pen neu bensil neu ddefnyddio bysellfwrdd neu lygoden addas?**

- ☐ Rhai o'r pethau hyn
- ☐ Dim o'r pethau hyn
- ☐ Mae'n amrywio

**53** **Os ydych wedi ateb Rhai o'r pethau hyn neu Mae'n amrywio, dywedwch wrthym pa rai o'r pethau hyn y mae gennych broblemau ag ef a pham. Os yw'n amrywio, dywedwch wrthym sut.**

## Cyfathrebu – siarad, ysgrifennu, a theipio

Mae cyfathrebu yn golygu gallu siarad, ysgrifennu neu deipio'n glir a chael eich deall gan eraill yn eich iaith eich hun. Mae'r adran hon yn gofyn sut y gallwch gyfathrebu â phobl eraill.

**54** **A allwch gyfathrebu â phobl eraill heb unrhyw drafferth?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 57**

**55** **A allwch gyfleu neges syml i bobl eraill fel presenoldeb rhywbeth peryglus?**

Gall hyn fod trwy siarad, ysgrifennu, teipio, neu unrhyw fodd arall, ond heb gymorth person arall.

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**56** **Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch wrthym sut rydych yn cyfathrebu a pham efallai na fyddwch yn gallu cyfathrebu â phobl eraill.**

Er enghraifft, anawsterau wrth siarad, ysgrifennu, neu deipio.

## Cyfathrebu – clywed a darllen

Mae'r adran hon yn gofyn am eich gallu i glywed pobl eraill a darllen gwybodaeth brintiedig

**57** **A allwch ddeall pobl eraill heb unrhyw drafferth?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 61**

**58** **A allwch ddeall negeseuon syml gan bobl eraill trwy glywed neu ddarllen gwefusau heb gymorth rhywun arall?**

Mae neges syml yn golygu pethau fel rhywun yn dweud wrthych ble mae dihangfa dân.

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**59** **A allwch ddeall negeseuon syml gan bobl eraill trwy ddarllen print maint mawr neu ddefnyddio braille?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**60** **Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch fwy wrthym am a oes angen i chi gyfathrebu mewn ffordd arall neu ddefnyddio cymhorthion, fel cymorth clyw.**

## Mynd o gwmpas yn ddiogel

Mae'r adran hon yn gofyn am broblemau â'ch golwg. Os ydych fel arfer yn defnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd, ci tywys, neu unrhyw gymorth arall, dywedwch wrthym sut byddwch yn ymdopi pan fyddwch yn eu defnyddio. Dywedwch wrthym hefyd pa mor dda rydych yn gweld yng ngolau dydd neu olau trydan llachar. Nid yw'r adran hon yn ymwneud ag unrhyw broblemau sydd gennych wrth symud o gwmpas oherwydd eich iechyd meddwl.

**61 A allwch fynd o gwmpas yn ddiogel ar eich pen eich hun?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 65**

**62 A allwch weld i groesi'r ffordd yn ddiogel ar eich pen eich hun?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**63 A allwch fynd o gwmpas lle nad ydych wedi bod iddo o'r blaen yn ddiogel heb gymorth?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**64 Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch wrthym am eich golwg ac unrhyw broblemau sydd gennych i ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas yn ddiogel.**

## Rheoli eich coluddion a'ch pledren a defnyddio dyfais gasglu

Mae dyfeisiau casglu yn cynnwys bagiau stoma a chathetrau.

**65 A allwch reoli'ch coluddion a'ch pledren heb unrhyw drafferth?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 68**

**66 A oes rhaid i chi olchi neu newid eich dillad oherwydd anhawster rheoli eich pledren, coluddion neu ddyfais casglu?**

- ☐ Na
- ☐ Oes - yn wythnosol
- ☐ Oes - yn fisol
- ☐ Oes - yn llai na misol
- ☐ Oes - ond dim ond os na allaf gyrraedd toiled yn gyflym

**67 Dywedwch wrthym am reoli'ch coluddion a'ch pledren neu reoli'ch dyfais gasglu ac os byddwch yn cael problemau os na allwch gyrraedd toiled yn gyflym. Dywedwch wrthym pa mor aml y mae angen i chi olchi neu newid eich dillad oherwydd anhawster i reoli eich pledren, coluddion neu ddyfais casglu.**

### Aros yn ymwybodol pan fyddwch yn effro

Wrth aros yn ymwybodol nid ydym yn golygu cwympo i gysgu dim ond oherwydd eich bod wedi blino.

**68** **A oes gennych unrhyw broblemau wrth aros yn ymwybodol tra'n effro?**

- ☐ Na — **Ewch i Galluedd meddyliol, gwybyddol, a deallusol**
- ☐ Oes

**69** **Tra byddwch yn effro, pa mor aml rydych yn llewygu neu'n cael ffitiau neu flacowts?**

Mae hyn yn cynnwys trawiadau epileptig fel ffitiau, ffitiau rhannol neu ffocal, absenoldebau, a hypos diabetig.

- ☐ Yn ddyddiol
- ☐ Yn wythnosol
- ☐ Yn fisol
- ☐ Yn llai na misol

**70** **Dywedwch wrthym am eich llewygu, ffitiau, neu flacowts.**

### Galluedd meddyliol, gwybyddol, a deallusol

Dywedwch wrthym sut mae eich problemau iechyd meddwl, gwybyddol, neu ddeallusol yn effeithio ar sut y gallwch wneud pethau bob dydd. Mae hyn yn golygu problemau y gallech eu cael o salwch meddwl fel sgitsoffrenia, iselder, a phryder, neu gyflyrau fel awtistiaeth, anawsterau dysgu, effeithiau anafiadau pen, a chyflyrau ymennydd neu niwrolegol.

Os ydych yn cael trafferth llenwi'r adran hon, gallwch ofyn i ffrind, perthynas, gofalwr, neu weithiwr cymorth eich helpu.

Gallwch ffonio'r Ganolfan Byd Gwaith ar **0800 328 1744** a fydd yn trafod y cwestiynau â chi dros y ffôn.

Os hoffech i unrhyw wybodaeth ychwanegol gael ei hystyried, er enghraifft gan eich meddyg, nyrs seiciatrig gymunedol, therapydd galwedigaethol, cynghorydd, seicotherapydd, therapydd gwybyddol, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr cymorth, neu ofalwr, anfonwch hi â'r ffurflen hon. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n dweud wrthym sut mae eich anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich gallu i wneud pethau o ddydd i ddydd a gwybodaeth am sut mae hyn yn effeithio arnoch pan fyddwch fwyaf sâl.

Anfonwch gopïau o wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd gennych yn barod atom. Peidiwch â gofyn na thalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom. Ysgrifennwch eich rhif Yswiriant Gwladol ar bob darn o wybodaeth y byddwch yn ei anfon atom.

**Atebwch yn gadarnhaol i'r cwestiynau canlynol dim ond os gallwch wneud y gweithgaredd yn ddiogel, i safon dderbyniol, mor aml ag sydd angen ac o fewn cyfnod rhesymol o amser.**

## Dysgu sut i wneud tasgau

**71 A allwch ddysgu gwneud tasgau bob dydd heb anhawster?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 75**

**72 A allwch ddysgu sut i wneud tasg bob dydd fel gosod larwm ar gloc neu ffôn clyfar?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**73 A allwch ddysgu sut i wneud tasg fwy cymhleth fel defnyddio peiriant golchi?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 74**
- ☐ Mae'n amrywio

**74 Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch wrthym am unrhyw drafferthion rydych yn eu cael wrth ddysgu gwneud tasgau a pham rydych yn ei chael yn anodd.**

Os oes angen mwy o le arnoch gallwch ddefnyddio adran 'gwybodaeth arall' neu ddarn arall o bapur â'ch rhif Yswiriant Gwladol wedi ei ysgrifennu arno.

## Ymwybyddiaeth o berygl neu beryglon

**75 A allwch aros yn ddiogel wrth wneud tasgau bob dydd fel berwi dŵr neu ddefnyddio gwrthrychau miniog?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 78**

**76 A oes angen rhywun i aros gyda chi y rhan fwyaf o'r amser i chi gadw'n ddiogel?**

- ☐ Na
- ☐ Oes
- ☐ Mae'n amrywio

**77 Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch wrthym sut rydych yn ymdopi â pherygl a pha broblemau sydd gennych wrth wneud pethau'n ddiogel.**

## Dechrau a gorffen tasgau

Mae hyn am a allwch ddechrau a chwblhau arferion dyddiol a thasgau fel coginio pryd o fwyd neu fynd i siopa.

**78** **A allwch lwyddo i wneud tasgau dyddiol heb anhawster?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 81**

**79** **A allwch lwyddo i gynllunio, dechrau, a gorffen tasgau dyddiol?**

- ☐ Byth
- ☐ Weithiau
- ☐ Mae'n amrywio

**80** **Dywedwch wrthym pa drafferthion a gewch wrth wneud eich arferion dyddiol.**

Er enghraifft, cofio gwneud pethau, cynllunio a threfnu sut i'w gwneud, a chanolbwyntio i'w gorffen. Dywedwch wrthym beth gallai ei gwneud yn anodd i chi a pha mor aml rydych angen pobl eraill i'ch helpu. Os yw'n amrywio, dywedwch wrthym sut.

## Ymdopi â newidiadau

**81** **A allwch ymdopi â newidiadau i'ch trefn ddyddiol?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 85**

**82** **A allwch ymdopi â mân newidiadau i'ch trefn arferol os ydych yn gwybod amdanynt cyn iddynt ddigwydd?**

Er enghraifft, pethau fel cael pryd o fwyd yn gynt neu'n hwyrach nag arfer, neu newid amser apwyntiad.

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**83** **A allwch ymdopi â mân newidiadau i'ch trefn arferol os ydynt yn annisgwyl?**

Mae hyn yn golygu nad yw pethau fel eich bws neu drên yn rhedeg ar amser, neu ffrind neu ofalwr yn dod i'ch tŷ yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl.

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**84** **Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio dywedwch fwy wrthym am sut rydych yn ymdopi â newid. Esboniwch eich problemau, a rhowch enghreifftiau os gallwch.**

## Mynd allan

Mae'r cwestiwn hwn am eich gallu i ymdopi'n feddyliol neu'n emosiynol â mynd allan. Os oes gennych broblemau corfforol sy'n golygu na allwch fynd allan, dylech ddweud wrthym amdanynt yn yr adrannau problemau iechyd corfforol.

**85** **A allwch fynd allan ar eich pen eich hun?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 89**

**86** **A allwch adael cartref a mynd allan i leoedd rydych yn eu hadnabod?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Gallaf, os bydd rhywun yn mynd gyda mi
- ☐ Mae'n amrywio

**87** **A allwch adael cartref a mynd i leoedd nad ydych yn eu hadnabod?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Gallaf, os bydd rhywun yn mynd gyda mi
- ☐ Mae'n amrywio

**88** **Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch wrthym pam na allwch bob amser gyrraedd lleoedd ac a oes angen rhywun i fynd gyda chi. Eglurwch eich problemau, a rhowch enghreifftiau os gallwch.**

## Ymdopi â sefyllfaoedd cymdeithasol

Mae sefyllfaoedd cymdeithasol yn golygu pethau fel cyfarfod â phobl newydd a mynd i gyfarfodydd neu apwyntiadau.

**89** **A allwch ymdopi â sefyllfaoedd cymdeithasol heb deimlo'n orbryderus neu ofnus?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf **Ewch i gwestiwn 93**

**90** **A allwch gwrdd â phobl rydych yn eu hadnabod heb deimlo'n orbryderus neu ofnus?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**91** **A allwch gwrdd â phobl nad ydych yn eu hadnabod heb deimlo'n orbryderus neu'n ofnus?**

- ☐ Na
- ☐ Gallaf
- ☐ Mae'n amrywio

**92** **Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch wrthym pam rydych yn ei chael yn ofidus cwrdd â phobl eraill, beth sy'n ei gwneud yn anodd a pha mor aml rydych yn teimlo fel hyn. Eglurwch eich problemau, a rhowch enghreifftiau os gallwch.**

## Ymddwyn yn briodol

Mae'r adran hon yn gofyn a yw eich ymddygiad yn cynhyrfu pobl eraill. Wrth hyn nid ydym yn golygu mân ddadleuon rhwng cyplau.

**93** **Ticiwch y blwch hwn os nad yw eich ymddygiad yn cynhyrfu pobl eraill.**

☐ **Ewch i adran Bwyta neu yfed**

**94** **Pa mor aml rydych yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cynhyrfu pobl eraill?**

Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd bod eich anabledd neu gyflwr iechyd yn golygu eich bod yn ymddwyn yn ymosodol neu'n ymddwyn mewn ffordd anarferol.

☐ Bob dydd

☐ Yn aml

☐ Yn achlysurol

☐ Mae'n amrywio

**95** **Dywedwch wrthym neu rhowch enghreifftiau o sut mae eich ymddygiad yn cynhyrfu pobl eraill a pha mor aml mae hyn yn digwydd. Eglurwch eich problemau, a rhowch enghreifftiau os gallwch. Os yw'n amrywio, dywedwch wrthym sut.**

## Bwyta neu yfed

**Atebwch Gallaf i'r cwestiynau canlynol dim ond os gallwch wneud y gweithgaredd yn ddiogel, i safon dderbyniol, mor aml ag sydd angen ac o fewn cyfnod rhesymol o amser.**

**96** **A allwch gael bwyd neu ddiod i'ch ceg heb gymorth neu gael eich annog gan berson arall?**

☐ Na

☐ Gallaf

☐ Mae'n amrywio

**97** **A allwch gnoi a llyncu bwyd neu ddiod heb gymorth neu gael eich annog gan berson arall?**

☐ Na

☐ Gallaf

☐ Mae'n amrywio

**98** **Os ydych wedi ateb Na neu Mae'n amrywio, dywedwch wrthym sut rydych yn bwyta neu'n yfed a pham gallai fod angen help arnoch.**

## Asesiad Gallu i Weithio

Efallai y gofynnir i chi wneud Asesiad Gallu i Weithio â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwys sy'n gweithio i Wasanaeth Ymgynghorol Asesiadau Iechyd. Gall hyn ddigwydd dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt fideo. Os bydd angen hyn, byddant yn anfon llythyr atoch â manylion eich apwyntiad a thaflen sy'n esbonio beth fydd yn digwydd.

Defnyddiwch y blwch isod yn Gwybodaeth arall i ddweud wrthym am unrhyw ddyddiadau ac amserau yn y 3 mis nesaf nad ydych ar gael am asesiad. Hefyd, dywedwch wrthym am unrhyw anghenion ar gyfer mynychu asesiad, er enghraifft, canolfan asesu heb risiau, neu fod angen cyfieithydd arnoch. Os hoffech fwy o wybodaeth am yr Asesiad Gallu i Weithio ewch i **www.gov.uk/esa-asesiad-gallu-i-weithio**

Os na ofynnir i chi mynychu apwyntiad, byddwn yn ysgrifennu ac yn egluro i chi beth fydd yn digwydd gyda'ch cais.

## Gwybodaeth arall

Os oes angen mwy o le arnoch i ateb unrhyw un o'r cwestiynau, defnyddiwch y blwch isod. Gall gofalwyr, ffrindiau neu berthnasau hefyd ychwanegu gwybodaeth yma am sut mae'ch anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio ar sut y gallech wneud pethau ar sail dyddiol.

Cwblhewch **dudalen 4** â'u manylion cyswllt oherwydd efallai byddwn yn cysylltu â nhw am ragor o wybodaeth.

Os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Rhowch eich enw a'ch rhif yswiriant gwladol arno.

## Os ydych yn dychwelyd yr holiadur hwn yn hwyr

Gall eich taliadau ESA ddod i ben os na fyddwch yn llenwi'r holiadur hwn a'i anfon i Wasanaeth Ymgynghorol Asesiadau Iechyd. Mae'n bwysig eich bod yn ei ddychwelyd erbyn y dyddiad rydym wedi gofyn i chi ei wneud.

**99** **A ydych yn anfon yr holiadur hwn yn ôl yn hwyrach na'r dyddiad gwnaethom ofyn i chi wneud?**

☐ Na

☐ Ydw

Dywedwch wrthym pwy:

## Caniatâd i ddweud wrth eich meddyg teulu am ganlyniad yr Asesiad Gallu i Weithio

Hoffai DWP rannu ei phenderfyniad yn seiliedig ar ganlyniad eich Asesiad Gallu i Weithio â'ch meddyg, neu unrhyw feddyg sy'n eich trin. Bydd hyn yn helpu'r meddyg, gan y bydd yn dweud wrtho pan na fydd angen iddo ddarparu Datganiadau Ffitrwydd i Weithio (a elwir hefyd yn nodiadau ffitrwydd neu dystysgrifau meddygol) i chi at ddibenion yr hawliad hwn.

Mae angen arnom i chi gytuno i ni rannu'r wybodaeth hon.

Nid oes rhaid i chi roi eich cytundeb. Os nad ydych yn cytuno, ni fydd yn effeithio ar eich cais am ESA. Byddwn yn cadw cofnod o'r penderfyniad a wnewch.

Gallwch dynnu eich cytundeb yn ôl unrhyw bryd cyn i'r Asesiad Gallu i Weithio gael ei gynnal drwy ffonio DWP ar **0800 328 1744**.

Os byddwch yn cysylltu â ni ar ôl yr Asesiad Gallu i Weithio efallai y bydd yn rhy hwyr, oherwydd efallai ein bod eisoes wedi gwneud penderfyniad a'i rannu.

Os byddwch yn tynnu eich cytundeb yn ôl, ni fyddwn yn rhannu'r penderfyniad ar sail canlyniad eich Asesiad Gallu i Weithio â'ch meddyg.

**Rwy'n cytuno i'm meddyg, neu unrhyw feddyg arall sy'n fy nhrin, gael gwybod am ganlyniad fy Asesiad Gallu i Weithio.**

☐ Na

☐ Ydw

**Llofnod**

**Dyddiad**

DD/MM/BBBB

## Datganiad

**Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi wneud llungopi o'ch ateb er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.**

- Rwy'n datgan fy mod wedi darllen a deall y nodiadau ar flaen y ffurflen hon, mae'r wybodaeth rwyf wedi ei rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.
- Rwy'n deall bod rhaid i mi roi gwybod yn brydlon am bob newid yn fy amgylchiadau a allai effeithio ar fy hawl a thrwy fethu â gwneud hynny efallai y byddaf yn agored i gael fy erlyn neu wynebu cosb ariannol. Byddaf yn ffonio **0800 328 1744**, neu'n ysgrifennu at y swyddfa sy'n talu fy mudd-dal, i roi gwybod am unrhyw newid yn fy amgylchiadau.
- Os byddaf yn rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn neu'n methu â rhoi gwybod am newidiadau yn fy amgylchiadau'n brydlon, rwy'n deall y gallai fy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gael ei stopio neu ei leihau a gellir adennill unrhyw ordaliad. Yn ogystal, efallai y byddaf yn cael fy erlyn neu wynebu cosb ariannol.
- Rwy'n deall hefyd gall yr Adran ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddi yn awr neu y gallai ei chael yn y dyfodol i benderfynu a oes gennyf hawl i:
  - y budd-dal rwy'n ei hawlio
  - unrhyw fudd-dal arall rwyf wedi ei hawlio
  - unrhyw fudd-dal arall gallaf wneud cais amdano yn y dyfodol.

**Mae rhaid i chi lofnodi'r ffurflen hon eich hun os gallwch, hyd yn oed os yw rhywun arall wedi ei llenwi ar eich rhan.**

**Llofnod**

**Dyddiad**

DD/MM/BBBB

## Sut mae Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu a defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu ac i wella ein gwasanaethau. Efallai byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

I gael mwy o wybodaeth am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny, a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i **www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**

## Beth i'w wneud nawr

Er mwyn sicrhau bod gennym yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom, gwnewch yn siŵr eich bod:

- wedi ateb yr holl gwestiynau ar yr holiadur hwn sy'n berthnasol i chi
- wedi llofnodi a dyddio'r holiadur
- yn anfon yr holiadur yn ôl erbyn y dyddiad rydym wedi gofyn yn y llythyr amgaeedig
- yn anfon yr holiadur wedi ei gwblhau yn ôl gan ddefnyddio'r amlen amgaeedig. Nid oes angen stamp arni. Peidiwch â'i anfon na mynd ag ef i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith
- wedi darparu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ychwanegol a fydd, yn eich barn chi, yn ein helpu i ddeall sut mae eich anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio ar sut gallwch wneud pethau o ddydd i ddydd.

Rhestrir enghreifftiau o ba dystiolaeth ychwanegol y dylech ac na ddylech ei hanfon ar y dudalen nesaf.

## Gwybodaeth feddygol neu wybodaeth arall sydd gennych eisoes

### ☒ Pethau hoffai Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiadau Iechyd eu gweld, os oes gennych rai eisoes –

Adroddiadau, cynlluniau gofal neu driniaeth amdanoch oddi wrth:
- meddygon teulu neu feddygon ysbyty
- nyrsys arbenigol
- nyrsys seiciatrig cymunedol
- therapyddion galwedigaethol
- ffisiotherapyddion
- gweithwyr cymdeithasol neu weithwyr cymorth
- timau cymorth anabledd dysgu
- cwnselwyr neu ofalwyr.

Canlyniadau profion meddygol gan gynnwys:
- sganiau
- awdioleg
- canlyniadau pelydrau-x, ond nid y pelydrau-x eu hunain.

Pethau fel:
- eich rhestr presgripsiwn gyfredol
- eich datganiad o anghenion addysgol arbennig
- dyddiadur trawiadau epilepsi
- eich tystysgrif nam ar y golwg.

Gwybodaeth arall:
- Pasbortau Ysbyty, mae hwn yn gofnod ysgrifenedig a gedwir gan bobl ag anableddau dysgu i roi gwybodaeth bwysig i staff ysbyty amdanynt a'u hiechyd pan gânt eu derbyn i'r ysbyty
- dyddiadur o'ch symptomau os yw eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn amrywio o ddydd i ddydd
- gwybodaeth ysbyty arhosiad hir gan gynnwys dyddiad derbyn, hyd arhosiad ac enw a chyfeiriad yr ysbyty.

### ☑ Pethau nad oes angen i Wasanaeth Ymgynghorol Asesiadau Iechyd eu gweld –

Gwybodaeth gyffredinol am eich cyflyrau meddygol nad ydynt amdanoch yn bersonol. Fel:
- lluniau
- llythyrau am fudd-daliadau eraill
- taflenni ffeithiau am eich meddyginiaeth
- allbrintiau rhyngrwyd
- datganiad Ffitrwydd i Weithio, a elwir fel arall yn nodiadau ffitrwydd, tystysgrifau meddygol, datganiadau meddyg neu nodiadau salwch
- llythyrau apwyntiad.

(!) Cofiwch – anfonwch gopïau o wybodaeth feddygol neu wybodaeth arall atom dim ond os oes gennych rai eisoes. Peidiwch â gofyn na thalu am wybodaeth newydd nac anfon dogfennau gwreiddiol atom. Ysgrifennwch eich Rhif Yswiriant Gwladol ar bob darn o wybodaeth y byddwch yn ei anfon atom.

## Triniaeth canser

**I'w chwblhau gan Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol sy'n ymwybodol o'ch cyflwr. Efallai mai eich meddyg teulu fydd hwn (a all godi ffi), meddyg ysbyty neu nyrs glinigol.**

Mae'r wybodaeth a roddwch yn yr adran hon yn bwysig gan y bydd yn ein helpu i wneud penderfyniad cyflym am gais ESA eich claf.

Mae'r adran hon am gleifion sy'n cael, yn aros am neu'n gwella o gemotherapi, triniaeth fiolegol / imiwnotherapi, triniaeth hormonaidd, therapi wedi ei dargedu neu driniaeth radiotherapi ar gyfer canser.

**100 Manylion diagnosis canser**

Cynhwyswch y math a'r safle, y cam ac unrhyw ddiagnosis cysylltiedig.

**101 Manylion y driniaeth**

Cynhwyswch y drefn a'r hyd disgwyliedig.

**102 A yw eich claf (Ticiwch fel y bo'n briodol)?**

- ☐ Aros neu'n cael cemotherapi, triniaeth fiolegol/imiwnotherapi, triniaeth hormonaidd, therapi wedi'i dargedu neu driniaeth radiotherapi ar gyfer canser
- ☐ Gwella ar ôl (ar ôl cwblhau'r driniaeth) cemotherapi, triniaeth fiolegol/imiwnotherapi, triniaeth hormonaidd, therapi wedi ei dargedu neu driniaeth radiotherapi ar gyfer canser? Ticiwch os oes gobaith parhaus o adferiad pellach neu obaith o welliant.

**103 Yn eich barn chi, a yw'n debygol y bydd neu y bydd sgil effeithiau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn sgil effaith y driniaeth?**

- ☐ Na
- ☐ Ydy

Yn eich barn chi, a yw'r sgileffeithiau hyn yn debygol o gyfyngu ar yr holl waith?

- ☐ Na
- ☐ Ydynt

Yn eich barn chi, pa mor hir byddech yn disgwyl i'r sgileffeithiau hyn bara?

### Eich manylion

**104 Enw**

**105 Teitl swydd a chymwysterau**

**106 Llofnod**

Llofnodwch y ffurflen yma ar ôl ei hargraffu

**107 Stamp y feddygfa, stamp yr ysbyty, neu fanylion cyfeiriad**

**108 Dyddiad**

DD/MM/BBBB